**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**TGCh mewn Addysg: Prisiadau**

## Diben

1. Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor i'w cynorthwyo i ystyried argymhellion eu hymgynghorydd arbenigol yn yr adroddiad "Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu mewn Addysg".

## Crynodeb

2. Mae'r papur hwn yn rhoi dadansoddiad fy swyddogion o amcangyfrif cost pob un o'r prif argymhellion a geir yn adroddiad Mr Harries. Yn amlwg, nid yw'r cynigion hyn wedi eu hystyried na'u hadolygu'n drylwyr gan y pwyllgor ei hun eto. Wedi dweud hynny, amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd cyfanswm cost argymhellion yr ymgynghorydd yn £100 miliwn dros gyfnod o 3 blynedd.

## Amseriad

3. Bydd y Pwyllgor yn trafod adroddiad Mr Harries yn y cyfarfod ar 8 Tachwedd.

## Ystyriaeth

4. Paratowyd y papur hwn yn wrthrychol er mwyn rhoi cefndir i drafodaethau'r Pwyllgor. Nid yw'n rhagdybio pa argymhellion a gaiff eu derbyn gan y Pwyllgor na pha rai a gaiff eu cynnwys ym mholisi'r Cynulliad ar gyfer TGCh mewn ysgolion. Serch hynny, hoffwn gynnig y sylwadau canlynol.

5. Mae'r adroddiad hwn yn gyfraniad gwerthfawr i ddatblygiad strategaeth y Cynulliad ar gyfer gwneud y defnydd gorau o TGCh er mwyn codi safonau mewn ysgolion. Pwysleisia nifer o feysydd pwysig y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i ddefnyddio TGCh ar draws y cwricwlwm ac i ddatblygu sgiliau TGCh.

6. Yn bersonol, hoffwn wneud cynnydd adeiladol cyn bo hir. Rwyf yn gwahodd y Pwyllgor i edrych yn ofalus ar yr hyn y gellir ei gyflawni yn synhwyrol cyn bo hir, gan gadw golwg ar y tymor hirach a'r adnoddau sy'n debygol o fod ar gael.

7. Awgrymaf fod y Pwyllgor yn dwys ystyried rhoi'r flaenoriaeth uchaf i un neu fwy o'r 3 argymhelliad cyntaf a nodir yn y Crynodeb Gweithredol. Mae'r argymhellion hyn yn gamau adeiladol y gellid eu cymryd nawr i gydlynu'r argymhellion sy'n weddill yn well, ac i'w gwneud yn fwy ystyrlon.

8. Yn fy marn i, mae'r Tasglu TGCh arfaethedig, yn enwedig, yn debygol o chwarae rôl allweddol wrth ddatblygu a gweithredu'r dulliau arloesol o fynd ati i ddarparu TGCh i ysgolion.

9. O ran y cynigion eraill, mae'r papur amgaeëdig yn nodi amcangyfrifon ein swyddogion o gostau gweithredu'r rhain dros y tair blynedd nesaf.

Amcangyfrifon bras yw'r rhain, ac yn amlwg bydd angen eu diwygio yng ngoleuni ystyriaethau'r Pwyllgor o adroddiad Mr Harries, a'r casgliadau y bydd yn dod iddynt ar gyfer ei adroddiad terfynol ei hun. Gall t Tasglu eu diwygio ymhellach fel y mae'n ystyried materion gweithredu'r argymhellion yn fanylach. Mae'n bur debyg y gall newidiadau yn y dechnoleg arwain at broffil cost llawer is dros amser.

10. Rwyf yn gwahodd y Pwyllgor i ystyried y rhaglenni buddsoddiad sylweddol y mae'r Cynulliad yn eu cynnal yn barod ar gyfer TGCh mewn ysgolion, a'r cyfraniad y bydd gan hyn at godi safonau. Gan eithrio cyfraniad uniongyrchol AALlau a gweithredu ehangach sy'n sylfaen i strategaeth TGCh cyffredinol y Cynulliad, mae hyn yn cynnwys yn 2000-1:

- **Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant**: £7.8 miliwn o grantiau i awdurdodau addysg lleol i gynorthwyo AALlau i ddatblygu mewnrwydi, caffael TGCh i ysgolion, hyfforddiant TGCh i athrawon a staff eraill ysgolion; a phum prosiect cydweithredol "arfer gorau" (gan gynnwys datblygu adnoddau dysgu digidol gan ysgolion ac AALlau).
- **TGCh ar gyfer Dysgu**: £6.75 miliwn o'r Gronfa Moderneiddio Cyfalaf i'w gwneud yn haws cael gafael ar TGCh yn y gymuned. Bydd hyn yn cynnwys darparu mwy o adnoddau TGCh mewn ysgolion uwchradd i'w galluogi i ddefnyddio mwy ar TGCh ar draws y cwricwlwm. Byddai cyfleusterau'r ysgolion hefyd ar gael ar gyfer eu defnyddio y tu allan i oriau arferol ysgol (nosweithiau, penwythnosau a gwyliau) ar gyfer clybiau gwaith cartref ac addysg barhaus i oedolion.
- **BECTA/Y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu**: £273,000 y flwyddyn o gyfraniad i ddatblygu'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu ar lefel y DU, gan gynnwys gwefan y Grid a rheoli fframwaith caffael ar gyfer Gwasanaethau a Reolir gan y Grid. Mae gweddill y gyllideb o £523,000 wedi ei glustnodi ar gyfer cynorthwyo prosiectau penodol gan gynnwys Laptops for Numeracy a diweddariad cynhwysfawr i'r wefan Gymreig VTC Cymru.

Yn ogystal â hyn, mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn darparu £12.6 miliwn dros gyfnod o 3 mlynedd, yn gorffen ym mis Mawrth 2002, i ddarparu hyfforddiant TGCh i athrawon a llyfrgellwyr ysgol. Mae hyn yn canolbwyntio ar ddefnydd addysgol o TGCh yn yr ystafell ddosbarth.

11. Gyda'i gilydd, bydd y rhain yn gyfraniad hynod sylweddol at gynnal momentwm buddsoddiad mewn TGCh mewn ysgolion.

**Goblygiadau Ariannol**

12. Mae'r gyllideb ddrafft a gafodd ei thrafod gan y Cynulliad ar 26 Hydref yn cynnwys symiau o £24 miliwn dros y 3 blynedd nesaf. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid hwn wedi ei glustnodi'n barod ar gyfer y mentrau a restrir uchod, a bydd yn gyfraniad sylweddol at wella TGCh mewn addysg. Caiff ei ategu gan raglen gwerth £26 miliwn o fentrau TGCh a noddir gan y loteri ar gyfer dysgu y tu allan i oriau arferol a dysgu gydol oes yng Nghymru. Bydd y mentrau hyn yn cael eu rheoli gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd.

13. Bydd angen i'r Pwyllgor benderfynu sut i symud ei strategaeth TGCh Addysg ymlaen gam wrth gam, wedi ei seilio ar dystiolaeth gadarn. Bydd angen gwneud hyn yng nghyd-destun Rowndiau Cynllunio Cyllideb dilynol, ac o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Serch hynny, cydnabuwyd o'r dechrau y byddai'r strategaeth yn atodol i gymorth a ddarperir drwy sefydliadau a mentrau eraill, yn ogystal â chael ei gyllido'n rhannol ganddynt. Er enghraifft, gall cymorth ychwanegol fod ar gael o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, yn enwedig o ran y gweithgareddau hynny sy'n cefnogi dysgu yn y gymuned. Efallai y bydd y Pwyllgor hefyd eisiau ystyried y rôl bwysig y bydd gan y sector preifat i'w chwarae er mwyn sicrhau bod gan bobl ifanc y cyfle i feithrin y sgiliau TGCh sy'n hanfodol i ffyniant Cymru yn y dyfodol. Drwy gynllunio am hyn, a thrwy geisio sefydlu partneriaethau da rhwng darparwyr addysg a hyfforddiant a gwell arferion caffael, dylai fod yn bosibl gwneud proffil cost sy'n edrych yn uchelgeisiol ar yr olwg gyntaf yn llawer haws i'w reoli dros amser. Dylid cofio hefyd y bydd pwysau'r farchnad yn arwain at newidiadau yn y dechnoleg ac yn gwthio'r prisiau i lawr. Yn amodol ar farn y Pwyllgor, mae'r rhain yn faterion y gallai, ac y dylai'r, Pwyllgor fynd i'r afael â hwy cyn gynted â phosibl.

14. Mae'r Is-adran Cynllunio Ariannol a'r Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol wedi gweld ac wedi nodi'r cyngor hwn.

**Cydymffurfio**

15. Mae'r adolygiad polisi yn cael ei gynnal gan y (cyn) Bwyllgor Addysg Cyn 16 Oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar yn unol â Rheol Sefydlog 9.7. Penododd y Pwyllgor ymgynghorydd arbenigol i'w gynorthwyo gyda'r gwaith hwn yn unol â Rheol Sefydlog 8.14. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad (nawr y Gweinidog) ddarparu gwybodaeth am brisiadau yn seiliedig ar adroddiad yr ymgynghorydd arbenigol fel y gall ystyried ei argymhellion yn drwyadl. Bydd y Pwyllgor wedyn yn cynhyrchu adroddiad o'i ystyriaethau a'i argymhellion ei hun, a'i anfon at y Gweinidog er mwyn iddi hi ei ystyried. Mae Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad wedi gweld y cyngor hwn, ac y mae'n fodlon ar yr agweddau cydymffurfio sydd iddo.

**Gweithredu**

16. Ystyried argymhellion Mr Harries yng ngoleuni amcangyfrifon y prisiadau, y cyhoeddiad diweddar yngln â'r gyllideb, y darpariaethau a wnaed yn barod o fewn rhaglenni cyfredol a'r ffynonellau cyllid posibl eraill.

**Y PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES**

**AMCANGYFRIFON COSTAU GWEITHREDU ARGYMHELLION "TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU MEWN ADDYSG"**

| Argymhelliad | Costau | | | Cynnwys y costau |
|---|---|---|---|---|
| | Blwyddyn 1 (2001-2) | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | |
| Sefydlu Pwyllgor Ymgynghori Polisi ar gyfer TGCh gyda chyfarwyddyd datblygu 3 mlynedd manwl ar gyfer TGCh mewn ysgolion yng Nghymru. [1-6] | £72,000 | £72,000 | £72,000 | Costau Teithio a Chynnal 10-12 o aelodau'r Pwyllgor o tua £150 yr un, 4 cyfarfod y flwyddyn. Dim cymorth gweinyddol ychwanegol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Sefydlu Tasglu Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu fel asiantaeth "hyd braich" i redeg y rhaglen ddatblygu 3 mlynedd ar gyfer TGCh mewn ysgolion. [1-6]** | **£400,000** | **£250,000** | **£250,000** | **Tim 4 person gan gynnwys staff proffesiynol a chymorth gweinyddol; swyddfa, TGCh a chostau cyffredinol** |
| Sefydlu Tim Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu i Gymru i ddarparu'r gwasanaethau cwricwlwm perthnasol i gyd, wedi ei lunio, ei gynllunio a'i addasu i ddiwallu anghenion ysgolion Cymru, yn gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. [4,6] | £680,000 | £500,000 | £500,000 | Tim 6-8 person gan gynnwys staff proffesiynol a chymorth gweinyddol; swyddfa, TGCh a chostau cyffredinol |

| **Argymhelliad** | **Costau** | | | **Cynnwys y** |
|---|---|---|---|---|
| | **Blwyddyn 1 (2001-2)** | **Blwyddyn 2** | **Blwyddyn 3** | **costau** |
| Sefydlu "Cronfa i Ysgolion Arboesol" er mwyn roi cynwrth i ysgoloion ddatblygu cynnwys digidol. Tim y Grid Cenedlaethol ar Gyfer Dysgu a ddylai reolir gronfa. | £100,000 | £100,000 | £100,000 | Grantiau o £1000-5000 yr un ar gyfer 20-100 athrawon. |
| Sefydlu 'asgwrn cefn' TGCh gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer Cymru gyfan dan nawdd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. [3] | HEB EI BRISIO | HEB EI BRISIO | HEB EI BRISIO | |
| Sefydlu cytundeb caffael cenedlaethol ar gyfer prynu offer TGCh i ysgolion. [1] | Yng nghostau'r Tasglu | Yng nghostau'r Tasglu | Yng nghostau'r Tasglu | |
| Sicrhau bodolaeth Rhwydwaith Cwricwlwm<br><br>cyflawn ym mhob AALl o fewn 3 mlynedd. [3] | | | | Amcangyfrif wedi ei seilio ar gyllid presennol y |
| Sicrhau bodolaeth Rhwydweithiau mewn ysgolion gyda lleiafswm o 5 cyfrifiadur â chyswllt i'r Rhyngrwyd ym mhob ystafell ddosbarth ym mhob ysgol yng Nghymru o fewn 3 mlynedd. [3] | £5,000,000 | £5,000,000 | £5,000,000 | Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu o fewn GEST |
| Sefydlu cymhareb safonol o leiafrif o 1 Cyfrifiadur Personol Aml-Gyfrwng i bob 5 disgybl o fewn 3 nlynedd (1-6] | £15,000,000 | £15,000,000 | £15,000,000 | Costau caffael TGCh. Ddim yn cynnwys costau rhedeg TGCh, sydd i'w dalu gan ysgolion ac AALlau |
| Cychwyn rhaglen i brynu offer newydd yn lle hen<br><br>offer TGCh ar gyfer ysgolion o 3edd flwyddyn y<br><br>datblygiad ymlaen. [1-6] | | | £15,000,000 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Creu rhaglen ailgylchu cyfrifiaduron ar sail masnachfraint ar gyfer ysgolion. [3] | £100,000 | £100,000 | £100,000 | Technegwyr £100 fesul cyfrifiadur am 1000 o gyfrifiaduron, a chymorth gweinyddol (HEO, AO, AO, AA) a chyhoeddusrwydd |

| Argymhelliad | Costau | | | Cynnwys y |
|---|---|---|---|---|
| | Blwyddyn 1 (2001-2) | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | costau |
| Creu swyddi technegwyr cynnal a chadw systemau TGCh i gynorthwyo'r rhwydweithiau newydd ar gymhareb o 1 technegydd ar gyfer pob 15 ysgol o fewn 3 mlynedd. [3] | £6,000,000 | £6,000,000 | £6,000,000 | Cyflogau technegwyr |
| Sefydlu adolygiad o'r elfen TGCh mewn sefydliadau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gan Estyn, a'i ategu trwy secondio athrawon, i'w gyflwyno o fewn 1 flynedd. [5] | £300,000 | £300,000 | £300,000 | Yng nghylch gwaith Estyn heb ddim cost ychwanegol ond gyda chostau secondio athrawon o £20-30k fesul athro (10 athro) (gan gynnwys costau cyffredinol) |
| Archwilio dichonolrwydd secondio athrawon i sefydliadau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon ar gontractau cyfnod penodol er mwyn cadarnhau'r hyfforddiant TGCh yn y sefydliadau hynny. [5] | £0 | £0 | £0 | Yng nghostau'r Tasglu |
| Dylanwadu ar gynllunwyr y Gronfa Cyfleoedd Cenedlaethol (NOF) er mwyn cychwyn cam "NOF2" ar gyfer datblygiad sgiliau o ansawdd uwch. [5] | £0 | £0 | £0 | |
| Cymryd mantais o'r archwiliad pum mlynedd o gylch gwaith Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) i archwilio trefniadau tymor hir ar gyfer datblygu TGCh yng Nghymru, ac os yn briodol i benderfynu arnynt. [1] | £0 | £0 | £0 | |
| Sicrhau y ceir cyfleusterau fideo-gynadledda ym mhob ysgol uwchradd a Choleg Addysg Bellach yng Nghymru i gynorthwyo gyda dysgu grwpiau bach a phynciau lleiafrifol ar gyfer 16+. [1-6] | £1,938,000 | £531,468 | £531,468 | Uned tebyg i stiwdio bychan ym mhob ysgol uwchradd. Seilir costau'r 2il a'r 3edd flwyddyn ar 15% cynnal a chadw a rhentu llinell ISDN. |
| **CYFANSWM** | **£29,590,000** | **£27,853,468** | **£42,853,468** | |
| | | **CYFANSWM 3 MLYNEDD** | **£100,296,936** | |